

Gwersylloedd Chwaraeon Prifysgol Abertawe – Amodau a Thelerau 2021

Sylwer ar y canlynol:

1. Cofrestrriad

Rhaid cofrestru pob plentyn yn y gweryll ar ddechrau'r diwrnod cyntaf. A wnewch chi gyrraedd 15 munud yn gynnar ar y diwrnod cyntaf a dod â'ch ffurflen archebu wedi'i chwblhau.

2. Hyfforddwyr

Mae pob hyfforddwr yn y gweryllloedd yn hyfforddwyr Corff Llywodraethu Cenedlaethol gwbl gymwys.

3. Polisi Canslo

Ni ellir ad-dalu ffioedd ein gweryllloedd. Os bydd plentyn yn eich gofal yn sâl a ddim yn gallu dod, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosib drwy e-bost (ahc.sbsp@abertawe.ac.uk) neu ffoniwch ni (01792 602400).

4. Gwylwyr

Gan nad oes gennym gyfleusterau i bobl wyllo, os bydd y plant dan do, rydym yn annog rhieni a/neu warcheidwaid i adael eu plant yn ystod amser y gweryll. Gan ddibynnu ar gamau sicrhau diogelwch perthnasol, gallwch aros am gyfnod byr ar y diwrnod cyntaf nes y bydd gweithgareddau wedi dechrau.

5. Lluniaeth

Rhowch becyn bwyd i'r plentyn yn eich gofal, gydag o leiaf un ddioid. Yn ogystal, rhoddir potel ddŵr y gellir ei hail-lenwi o'n ffynnon ddŵr ni i bob cyfranogwr.

6. Dillad

Sicrhewch fod y plentyn yn gwisgo dillad priodol ar gyfer ymarfer corff. Rhoddir crys-T i gyfranogwyr wisgo yn y gweryll. Yn ogystal bydd angen het haul ac eli haul ar blant ar gyfer gweithgareddau yn yr awyr agored, a dillad cynnes a chot law rhag ofn bydd tywydd gwael. Yn ogystal, rydym yn eich cynghori chi i ysgrifennu enw'ch plentyn ar bob eitem o ddillad.

7. Polisi Ymddygiad

Mae ein gweryllloedd yn hyrwyddo hwyl mewn amgylchedd diogel. Caiff unrhyw blentyn sy'n tarfu ar y gweryll neu'n atal eraill rhag mwynhau ei atal o'r gweryll. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn cysylltu â rhieni a/neu ofalwyr i ofyn iddynt gasglu eu plentyn.

8. Meddyginiaeth

Mae staff yn y cyfleuster yn gwbl gymwys i roi cymorth cyntaf. Os ydych chi wedi nodi cyflyrau meddygol ar y ffurflen gais, sicrhewch eich bod chi'n rhoi gwybod i staff adeg cofrestru. Os oes gan eich plentyn feddyginiaeth (pwmp asthma, er enghraifft), sicrhewch fod hynny gydag ef a'i fod ei enw arno. Os yw eich plentyn wedi bod yn sâl ar ddiwrnod y gweryll, rhowch wybod i staff adeg cofrestru. Darllenwch ganllawiau'r cyfleuster cyn dod. Mae hyn ar gael ar y ddolen ganlynol: <https://www.swanseabaysportspark.wales/reopening/>

9. Ffotograffiaeth

Byddwn yn cymryd lluniau o gyfranogwyr ar y gwerysll. Caiff y rhain eu defnyddio ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn unig. Os nad ydych chi'n dymuno i'ch plentyn fod mewn lluniau, sicrhewch eich bod chi wedi ticio'r blwch ar y ffurflen gais ac wedi rhoi gwybod i staff adeg cofrestru.

1. DEHONGLI

Parc Chwaraeon Bae Abertawe (SBSP) yw hunaniaeth gyfunol cyfleusterau chwaraeon a leolir yn Lôn Sgeti, Abertawe SA2 8QB gan gynnwys:

- Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe;
- Canolfan Chwaraeon Prifysgol Abertawe;
- Canolfan Athletau a Hoci Abertawe;
- Caeau Chwarae Chwaraeon Prifysgol Abertawe

Datblygwyd a mabwysiadwyd brand SBSP ar gyfer brandio a marchnata safle Lôn Sgeti yn bennaf, gan alluogi'r cyfleusterau a restrir i fabwysiadu ymagwedd ar y cyd at wella profiad y cwsmer wrth hybu effeithlonrwydd.

Defnyddir brand SBSP ar blatfformau ffisegol a digidol gan gynnwys arwyddion, cyfryngau argraffu, gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd y platfformau hyn yn adnodd a rennir ar gyfer yr holl gyfleusterau perthnasol.

Er mai SBSP fydd yr hunaniaeth bennaf a'r unig hunaniaeth ar gyfer safle Lôn Sgeti, nid yw'n disodli'n uniongyrchol hunaniaethau presennol y cyfleusterau unigol ac nid yw'n creu perthynas gytundebol ychwanegol rhwng cyfleusterau nac yn newid y statws cyfreithiol na statws y berchnogaeth.

Ceisiwyd cymeradwyaeth i ddatblygu a gweithredu'r ymagwedd SBSP gan Uwch-dîm Rheoli Prifysgol Abertawe, Cabinet Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Bwrdd Pwll Cenedlaethol Cymru.

Mae cyfeiriadau at 'chi' ac 'eich' yn golygu chi, sef yr unigolyn sy'n ymrwymo i'r amodau a thelerau hyn.

Mae pob cyfeiriad i 'ni' ac 'ein' yn cyfeirio at Brifysgol Abertawe (SBPS)

Mae **'y Cytundeb'** yn golygu y Ffurflen Gais, ymwadiad meddygol, yr amodau a thelerau hyn a rheolau unigol y cyfleuster, gan gynnwys rhai Campfeydd SBSP, Neuaddau a Chyrtiau SBSP a'r Ganolfan Athletau a Hoci.

Mae **'y Ffurflen Gais'** yn golygu'r ffurflen gais ar gyfer y gwerysll a gynhelir yn SBSP.

Mae 'ffi' yn golygu costau sy'n daladwy ar gyfer y gwerysll, fel a amlinellwyd yn eich Ffurflen Gais ar gyfer y gwerysll a gynhaliwyd yn SBSP.

Golyga 'y gwerysll' y gwerysll hoci a'r gwerysll athletau i'w cynnal yng nghyfleusterau chwaraeon Campws Singleton ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe (SBSP), Lôn Sgeti SA2 8QG.

Mae 'yr hyfforddwr' yn cyfeirio at Reolwr SBPS ar y pryd ac mae'n cynnwys unrhyw gyflogai arall a allai fod yn gweithredu ar ran y rheolwr

2. Y GWERSYLLOEDD

2.1 Cynhelir y Gwersylloedd yn y cyfleusterau chwaraeon ar Gampws Singleton ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe (SBSP), Lôn Sgeti, Abertawe SA2 8QG.

2.2 Bydd y gwersylloedd yn cael eu goruchwylio a'u cydlynu gan staff hyfforddi wedi'u hachredu gan naill ai UK Athletics (gwersylloedd Athletau) neu'r UKCC (gwersylloedd Hoci).

2.3 Bydd y gwersylloedd yn ystyried agweddau amrywiol ar chwaraeon ac yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon, a gallant gynnwys ambell sesiwn yn yr ystafell ddosbarth.

2.4 I gadw lle ar y gwersylloedd, bydd yn rhaid i rieni a/neu warcheidwaid greu 'aelodaeth talu wrth fynd' i'w plentyn er mwyn cadw lle iddo ar wersyll.

2.5 Ni ellir ad-dalu costau'r gwersylloedd. Os bydd eich plentyn yn sâl ac yn methu dod, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosib drwy e-bost (ahc.sbsp@abertawe.ac.uk) neu ffoniwch (01792 602400).

2.6 Mae SBSP yn cadw'r hawl i newid y gwersylloedd a'u cynnwys ar fyr rybudd, ac i ganslo sesiynau a gadwyd ar unrhyw adeg. Caiff newidiadau eu gwneud gyda chyn lleied o darfu â phosib a chaiff ad-daliadau eu cynnig dim ond pan fydd SBSP yn canslo'r sesiwn a gadwyd.

2.7 Os ydych chi wedi rhestru cyflyrau meddygol ar eich ffurflen gais, rhaid i chi sicrhau eich bod chi'n rhoi gwybod i staff ar adeg cofrestru. Os yw eich plentyn yn cymryd meddyginiaeth (er enghraifft, mae angen pwmp asthma arno, er enghraifft), sicrhewch ei fod yn dod ag ef ac yn ysgrifennu ei enw arno. Os yw eich plentyn wedi bod yn sâl ar ddiwrnod y gwersyll, rhaid rhoi gwybod i staff adeg cofrestru.

3. ATEBOLRWYDD

3.1. Mae'r holl warantïau, amodau a thelerau eraill sydd wedi'u hawgrymu drwy statud neu'r gyfraith gyffredin, i raddau helaethaf y gyfraith, wedi'u heithrio o'r amodau a thelerau hyn.

3.2. Nid oes unrhyw beth yn yr amodau a thelerau hyn yn cyfyngu neu'n eithrio ein hatebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol o ganlyniad i'n hesgeulustod ni, neu am ddifrod neu atebolrwydd rydych chi'n gyfrifol amdano o ganlyniad i dwyll neu gam-gynrychiolaeth dwyllodrus.

3.3. Bydd cyfanswm ein hatebolrwydd mewn contract, camwedd (gan gynnwys esgeulustod neu dorri dyletswydd statudol), cam-gynrychiolaeth, adferiad neu sy'n codi fel arall mewn cysylltiad â'r perfformiad, neu berfformiad arfaethedig, neu ein rhwymedigaethau dan yr amodau a thelerau hyn yn gyfyngedig i'r ffioedd rydych chi wedi'u talu i ni am y Gwersyll. Ni fyddwn yn atebol am golled, costau, difrod, taliadau neu dreuliau arbennig, anuniongyrchol, ôl-ddilydol neu economaidd.

3.4. Ni fyddwn yn atebol am golled, difrod neu ladrad eiddo personol yn SBSP.

4. AMRYWIO TELERAU

4.1. Rydym yn cadw'r hawl i amrywio'r amodau a thelerau hyn, ac unrhyw reolau, ar unrhyw adeg, i adlewyrchu newidiadau mewn cysylltiad â rheoli a gweithredu SBSP.

5. GWYBODAETH BERSONOL

5.1. Rydym yn casglu ac yn prosesu'r wybodaeth yn eich cais am Aelodaeth Chwaraeon Abertawe, ac unrhyw wybodaeth arall rydych yn ei darparu i ni, er mwyn i ni allu darparu ein gwasanaethau i chi ac ymdrin â'ch ceisiadau.

5.2. Caiff yr wybodaeth bersonol rydych yn ei rhoi i ni ei chasglu a'i phrosesu at ddibenion monitro a dadansoddi ein busnes, marchnata a chyfathrebu mewn cysylltiad â'n cynhyrchion a'n gwasanaethau ni a rhai cwmnïau eraill. Gellir cyfathrebu â chi drwy e-bost neu'r post.

5.3. Gellir datgelu gwybodaeth bersonol hefyd i asiantau neu drydydd partïon a benodwyd gennym ni neu gan aelodau eraill o gwmnïau eraill i ymgymryd â gweithgareddau marchnata a chyfathrebu os ydych chi wedi nodi'r dewis hwn ar eich ffurflen aelodaeth. Gweler [Polisi Preifatrwydd SBSP](#) am ragor o fanylion.

5.4. Mae gennych hawl i dderbyn copi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi ac i ofyn i ni gywiro camgymeriadau drwy ysgrifennu atom.

6. PWYNTIAU CYFFREDINOL

6.1. Os byddwn yn trosglwyddo unrhyw hawl neu atebolrwydd o dan y cytundeb hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

6.2. Os oes newid mewn manylion personol a ddarparwyd i ni gennych chi, rhaid i chi ein hysbysu a sicrhau bod yr holl fanylion cyswllt a ddarparwyd i ni'n gyfredol ac yn gywir.

6.3. Mae SBSP a'i faes parcio yn ardaloedd dim smygu.

6.4. Os bydd anghytundeb wrth ddehongli rheolau SBSP, ein penderfyniad ni fydd yn derfynol. Drwy ymrwymo i'r amodau a thelerau hyn, rydych chi'n cadarnhau y byddwch chi'n cydymffurfio â nhw a'r holl reolau defnyddio.

11.5. Mae cadw sesiynau a mynediad yn destun y Polisi Cadw Sesiynau llawn.

6.6. Dylid ymdrin ag anghydfodau neu bryderon yn unol â'n [Polisi Cwynion](#).

6.8. Yn ogystal:-

a) Ni chaniateir dod ag eitem neu sylwedd peryglus neu wenwynig i'r cyfleuster.

b) Mae rheolau unigol yn berthnasol i'r holl gyfleusterau unigol er iechyd a diogelwch yr holl ddefnyddwyr a

staff. Rhaid glynu wrth y rhain ar bob adeg.